Hysbysiad Preifatrwydd (cleientiaid eiriolaeth unigol)

Cyflwyniad

Mae Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan (y cyfeirir ato yn yr hysbysiad hwn fel "CIC", "rydym", "ni" neu "ein") yn trin preifatrwydd a chyfrinachedd o ddifrif. Rydym yn cydymffurfio â phob agwedd o fframwaith deddfwriaethol diogelu data'r Deyrnas Unedig (DU), sy'n cynnwys y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) Ewropeaidd a deddfwriaeth y DU ei hun.

Hysbysiad preifatrwydd cryno yw hwn, sy'n rhoi gwybodaeth allweddol i chi am sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol. Os am fwy o wybodaeth, cyfeiriwch at ein Hysbysiad Preifatrwydd llawn, sydd ar gael ar ein gwefan, neu gallwch ofyn i'n Swyddog Diogelu Data (DPO) am gopi.

Rheolydd Data a Swyddog Diogelu Data

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei gadw gan CIC fel Rheolydd Data, neu CIC a'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru ("y Bwrdd") weithiau, fel cyd reolyddion. Rydym wedi penodi Swyddog Diogelu Data (DPO) penodedig, i sicrhau bod ein gweithgareddau prosesu data yn cael eu goruchwylio'n briodol. Y DPO yw Miss Jemma McHale sy'n Prif Swyddog . Gellir cysylltu ag ef yn y ffyrdd a ddisgrifiwyd isod, a gall roi unrhyw eglurder sydd angen arnoch am yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Pam ein bod ni'n casglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol

Mae'r prif reswm y mae CIC yn casglu a defnyddio eich data personol yn ymwneud â'r gwasanaethau eiriolaeth a ddarperir ar eich cyfer chi. Yn benodol, mae ein swyddogaethau statudol yn cynnwys darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion i unigolion sy'n dymuno gwneud cwyn am driniaeth GIG maent wedi'i dderbyn, ac mae'n bosib byddwn yn prosesu eich gwybodaeth wrth arfer y swyddogaethau yma. Mae'n bosib hefyd y byddwn yn prosesu eich gwybodaeth wrth drafod gyda'r Bwrdd, fel y gellir trefnu cymorth eiriolaeth ar eich cyfer chi, neu wrth ymdrin ag unrhyw gwynion sydd gennych am y gwasanaeth

eiriolaeth a ddarparwyd gennym. Mae gennym hawl cyfreithiol i wneud hyn, oherwydd mae'n angenrheidiol casglu a defnyddio eich data personol, er mwyn cyflawni swyddogaeth gyhoeddus.

Wrth gyflawni ein swyddogaethau, rydym yn debygol o ddysgu gwybodaeth amdanoch. Efallai byddwch chi'n rhoi mwyafrif yr wybodaeth yma i ni eich hun, ond fe fyddwn yn cynhyrchu rhywfaint ohono a byddwn yn derbyn gwybodaeth amdanoch gan bobl eraill sy'n ymwneud â'ch mater chi. Mae'n bosib hefyd y byddwn yn ychwanegu at yr wybodaeth sydd gennym o ffynonellau sydd ar gael yn gyhoeddus.

Mae'n bosib bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth bersonol sy'n disgyn i un o'r categorïau arbennig a gydnabuwyd yn y ddeddfwriaeth diogelu data. Mae gennym hawl cyfreithiol i wneud hyn, lle bo angen, am resymau'n ymwneud â lles y cyhoedd ym maes iechyd cyhoeddus, y sefydliad, arfer neu amddiffyn hawl cyfreithiol, neu eich bod yn cydsynio trwy roddi'r wybodaeth i ni o'ch gwirfodd.

Rhannu eich gwybodaeth

Rydym yn rhannu eich data personol gyda thrydydd partïon, er mwyn cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus a restrwyd uchod. Yn arbennig, mae'n bosib byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda'r Bwrdd neu Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Efallai hefyd y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG, meddyg teulu neu ddarparwr gofal iechyd arall a ddarparodd driniaeth i chi, ond dim ond i'r graddau bod hyn yn angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaeth eiriolaeth i chi. Mewn rhai achosion, mae'n bosib hefyd y byddwn yn rhannu gwybodaeth gyda CIC arall, os oes angen gwasanaeth eiriolaeth arnoch trwy gyfrwng y Gymraeg ac na allwn ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Mae'n bosib hefyd bydd eich data personol yn cael ei rannu gyda thrydydd partïon eraill, megis Llywodraeth Cymru, ein hyswirwyr a chynghorwyr proffesiynol, a thrydydd partïon sy'n cyflenwi nwyddau a gwasanaethau i ni, er mwyn ein galluogi i gydymffurfio â gofynion adrodd a gofynion cyfreithiol, ac i'n galluogi ni i redeg ein sefydliad yn effeithiol.

Nid ydym yn gwerthu, gosod ar rent neu fel arall yn gwneud gwybodaeth bersonol ar gael yn fasnachol i unrhyw drydydd parti.

Gwybodaeth bersonol rydych chi'n ei rannu gyda ni

Mae'r gyfraith yn ein galluogi i gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol am bobl eraill wrth eich darparu chi â gwasanaethau eiriolaeth. Os ydych yn dymuno rhoi gwybodaeth bersonol i ni am berson arall, yna siaradwch â ni, os gwelwch yn dda, i sicrhau bod gennych hawl cyfreithiol i roi'r wybodaeth i ni, ac am gyngor p'un ai bod angen i chi roi gwybod i'r person hwnnw.

Am ba hyd y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol

Ein polisi ni yw peidio â chadw gwybodaeth bersonol am fwy nag sy'n angenrheidiol. Mae gennym amserlenni cadw data sefydledig ar gyfer unrhyw wybodaeth bersonol a ddelir gennym, yn seiliedig ar pam mae angen yr wybodaeth arnom, a manylir ynghylch hyn yn ein Polisi Cadw Data. Rydym yn dileu neu'n dinistrio gwybodaeth bersonol mewn modd diogel, yn unol â'r Polisi Cadw Data.

Wedi cwblhau eich achos, yn gyffredinol, byddwn yn cadw'r wybodaeth bersonol berthnasol am gyfnod o chwe mis, er gall fod yna gyfnod cadw gwahanol ar gyfer peth o'ch gwybodaeth ac, os felly, manylir ynghylch hyn yn ein Polisi Cadw Data.

Diogelwch

Yr ydym wedi'n hymrwymo'n gryf i ddiogelu gwybodaeth. Yr ydym wedi rhoi gweithdrefnau corfforol, electroneg a rheolaethol yn eu lle, i ddiogelu ac amddiffyn yr wybodaeth yr ydych yn ei roi i ni, gan gynnwys y defnydd o amgyrptiad a ffugenwau. Os ydych yn dymuno trafod diogelwch eich gwybodaeth, yna cysylltwch â ni os gwelwch yn dda.

Hawliau Preifatrwydd

Mae nifer o hawliau gan unigolion, yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data. Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd llawn yn cynnwys manylion llawn am yr holl hawliau, er, byddwch yn ymwybodol, os gwelwch yn dda, na fydd yr holl hawliau'n berthnasol i chi.

Sut i wneud cwyn

Rhowch wybod i ni, os gwelwch yn dda, os ydych yn anfodlon gyda'r ffordd yr ydym wedi defnyddio eich gwybodaeth bersonol. I roi gwybod i ni am hyn, cysylltwch â'n DPO, Miss Jemma McHale, ffôn 01633 838516 os gwelwch yn dda. Mae gennych yr hawl hefyd i wneud cwyn wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar eu gwefan
www.ico.org.uk